Cyngor Cymuned Pistyll

**Cofnodion Cyngor Cymuned Pistyll**
**A gynhaliwyd yn y Ganolfan Llithfaen**
**Nos Fawrth 13eg o Fedi am 7:30 y.h**

**Yn Bresennol**

Cynghorwyr – William Jones (WJ), John Owen (JO), Gwilym Williams (GW), Olwen Roberts (OR), Gwyn D Roberts (GR), Sianelen Pleming (SP) a Lisbeth James (LJ), Emlyn Hughes (EH) a'r Cyng Aled Jones (AJ).

1. **Ymddiheuriadau -** Dim

2. **Hysbysebiadau y Cadeirydd**

2.1 Cafwyd croeso gan y Cadeirydd Olwen Roberts.

2.2 Sedd Wag – Cadarnhawyd fod y gynrychiolaeth ar y Cyngor fel a ganlyn ar hyn o bryd:

| **Wardiau** | | |
|---|---|---|
| **Pistyll (3 sedd)** | **Llithfaen (6 sedd)** | **Carnguwch (1 sedd)** |
| Gwilym Williams | Gwyn D Roberts | John H Owen |
| William Jones | Dewi Ellis | |
| Emlyn Hughes | Olwen Roberts | |
| | Sianelen Pleming | |
| | Lis James | |
| | ***Gwag*** | |

Nodwyd fod rhybudd sedd wag wedi'i arddangos o'r tua allan i'r Siop rhwng y 1af ar 19eg o Awst. Ni fu ymateb. Penderfynwyd symud ymlaen i arddangos rhybudd Cyfethol. *Y Clerc i weithredu.*

3. **Datgan Diddordeb -** Dim

4. **Cofnodion**

4.1 Cynigodd John Owen fod cofnodion y 12 o Orffennaf yn gywir ac eiliodd Lis James.

4.2 **Dŵr yr Eifl –** Dafydd Williams a ymgymrodd a'r gwaith o dorri ar draws y trac i ddŵr gael rhedeg i'r rhigolau draenio sydd islaw. Cawn anfoneb maes o law. Mae'r Swyddog perthnasol o'r Cyngor Sir wedi cytuno i ymweld a'r safle yng nghwmni JO. Nid yw'r ymweliad wedi'i drefnu eto. Mae'r Cyng. AJ yn awyddus i weld y safle.

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347

4.3 **Opsiynau o ran perchnogaeth y Ganolfan** – Cyflwynwyd yr adroddiad opsiynau sydd yn atodiad 3 o'r papurau a gylchredwyd gyda chofnodion y 12 o Orffennaf gan y Clerc.
Cyfeiriodd SP at y cofnod canlynol yng nghofnodion y 10 Tachwedd,2015:
'Penderfynwyd y byddai prydles Canolfan Llithfaen yn enw Cyngor Cymuned Pistyll ond y byddant yn dirprwyo y cyfrifoldeb i Bwyllgor y Ganolfan. Cytunwyd y byddant yn gofyn i Gyngor Gwynedd adnewyddu'r brydles am 99 o flynyddoedd.'

Yn dilyn trafodaeth penderfynodd y Cyngor gyfarwyddo'r *Clerc i gysylltu gyda'r Swyddog perthnasol yn y Cyngor i ofyn am brydles ddrafft i'r Cyngor Cymuned ei hystyried yng nghyfarfod mis Hydref.*
Nododd y Clerc y byddai angen i'r Cyngor Cymuned gynnal cyfundrefnau grymus o ran y Ganolfan pe ymrwymir i brydles.
Cadarnhawyd mai LJ, GR ac SP sy'n cynrychioli'r Cyngor Cymuned ar Bwyllgor y Ganolfan.
Penderfynwyd ychwanegu 'Adroddiad y Ganolfan' fel eitem safonol ar agenda'r cyfarfod blynyddol.

4.4 **Hysbysfwrdd ar wal y siop** –
Ystyriwyd 3 phris am hysbysfwrdd addas i'r gwaith mewn golwg. *Awdurdodwyd y Clerc i archebu'r hysbysfwrdd rhataf o'r 3 am gost o £195.48, yn cynnwys TAW, gan Gwmni o'r enw 'Noticeme'.*

4.5 **Heddlu yn mynychu cyfarfodydd** – Nododd y Clerc iddo hysbysu'r Heddu o fanylion cyfarfodydd 16/17 a'u gwahodd i gyfarfod y Cyngor Cymuned tros dymor yr Hydref mewn ymateb i or-yrru ym mhentref Llithfaen. Esboniodd ei fod yn aros am ymateb ac wedi dilyn y cais i fyny ymhellach.

4.6 **Cyflog y Clerc**
Nododd y Clerc iddo gylchredeg cytundeb cyflogi drafft i'r Cadeirydd ei ystyried.
*Y Clerc i adrodd yn ôl ar gynnydd*.

5. **Ceisiadau Cynllunio**

5.1 Rhif y Cais: C16/0623/43/LL Lleoliad:Capel Bethania, Pistyll, LL53 6LS
Pasiwyd y cais.

5.2 Rhif y Cais. C16/0976/43/LL Lleoliad: Plas Pistyll, LL536LR
Pasiwyd y cais.

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347

Cyngor Cymuned Pistyll

6. **Gohebiaeth**

6.1 **Biniau halen:** Nododd y Clerc iddo gysylltu gyda'r Cyngor Sir i gadarnhau penderfyniad y Cyngor Cymuned i dderbyn eu cynnig i barhau i wasanaethu'r biniau halen yng nghymuned Pistyll/Llithfaen. Bydd y Cyngor Sir mewn cyswllt fis Medi i gadarnhau bod y biniau halen wedi eu llenwi ynghyd â chadarnhad o'r manylder o ran eu hail-lenwi. *Y Clerc i adrodd ar gynnydd.*

6.2 **Toiledau Cyhoeddus:** Nodwyd fod y Cyngor Sir wedi ymestyn y dyddiad diweddaraf i ymateb i'w cynnig o ran cadw'r toiledau cyhoeddus yn Llithfaen yn agored i'r 1af o Hydref, 2016. Adroddod y Clerc i Paul Egan, Dirprwy Brif Weithredwr Un Llais, gadarnhau nad oes uchafswn canran y gall Cyngor Cymuned gynyddu eu praesept o un flwyddyn arianol i'r llall. Y farn gyffredinol ymysg yr Aelodau oedd nad yw'n werth am arian i etholwyr Cyngor Cymuned Pistyll ymrwymo i gyfranu trwy'r praesept tuag at gynnal y toiledau cyhoeddus yn Llithfaen na'u rheoli i'r dyfodol. Er mwyn sicrhau fod hyn yn adlewyrchu dyheadau yr etholwyr mae'r Cyngor Cymuned wedi galw Cyfarfod Cyhoeddus. Fe'i cynhelir yn y Ganolfan am 7.30pm nos Lun y 19 o Fedi.'

6.3 **Asesiad Effaith Ieithyddo**l **CDLl:** Ymatebodd y Cyngor Cymuned i'r cais am adborth fel a ganlyn:- 'Mae'r asesiad annibynnol yn dystiolaeth werthfawr ac yn wybodaeth bellach bwysig. Mae Cyngor Cymuned Pistyll yn cefnogi'r cais i'r Arolygwyr ystyried yr Asesiad Effaith Iaith yn yr archwiliad.' Cydnabyddwyd y sylwadau.

6.4 **Gohebiaeth amrywiol:** Cyflwynyd pecyn o ohebiaeth amrywiol i'r Aelodau er gwybodaeth. Ni chafwyd adborth.

7. **Unrhyw Fater Arall**

7.1 **Torri Gwrychoedd** - Nododd y Cyng. AJ fod y Cyngor Sir yn torri gwrychoedd ddwy waith y flwyddyn.
Nododd EH fod angen barbio'r ffordd rhwng Pistyll a Phentreuchaf. *Y Clerc i weithredu*

7.2 **Ffrydiau gwaith gweinyddol yn deillio o newidiadau yng ngofynion y Rheoleiddwyr**

7.2.1 **Asesiad Risg:** Cyflwynwyd Asesiad Risg manwl gan y Clerc. Yn dilyn adolygiad fe'i mabwysiadwyd gan y Cyngor ac *mae'r Clerc i ddatblygu cynllun gweithredu yn seiliedig ar yr adolygiad hwnnw. GW i ymchilio i berchnogaeth y rhan o fynwent Pistyll y mae'r Cyngor Cymuned yn gyfrifol amdano.*

7.2.2 **Rheolau Sefydlog:** Penderfynwyd sefydlu panel i gydweithio gyda'r Clerc i ddatblygu opsiynau i'w hystyried gan y Cyngor llawn. Aelodau'r Panel fydd GW,JO a GR.

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347

7.3**Presenoldeb ar yn we** –

Cyflwynodd y Clerc droddiad:

-yn nodi beth sydd raid i'r Cyngor ei gofnodi ar y we,

-am rai gwefannau lleol presennol.

Nododd iddo holi Mantell Gwynedd ynglyn â ffynhonnellau i arianu sefydlu gwefan ac iddynt awgrymu i'r Cyngor sicrhau 3 phris yn y man cyntaf. Cytunodd GW i gydweithio gyda'r clerc i ddatblygu briff er sicrhau prisiau. *Penderfynwyd fod rhai o'r aelodau am holi arbenigwyr lleol cyn gwneud dim pellach.*

**8.Cyllid**

8.1**Archwilio/cyfrifon 14/15 a 15/16**

Cyflwynwyd a derbynwyd cyfrifon 15/16

Cyflwynwyd, derbynwyd a chydnabüwyd sylwadau'r Archwiliwr Mewnol am 2014/15 a 2015/16.

Cydweithwyd i gwblhau adroddiad i'r Archwiliwr Allanol. *Y Clerc i'w yrru ymlaen.*

8.2**Rhaglygon Arianol**: Cyflwynwyd rhagolygon arianol 2016/17 (yn cynnwys gwir wariant hyd yn hyn). Trafodwyd y rhagolygon. *Y Clerc i'w gwirio ar sail y drafodaeth a darparu rhagamcanion ar gyfer 2017/18 i'w hystyried yng nghyfarfod mis Hydref.*

Derbyniadau: Praesept £2750.00

Taliadau: Dim

Balans cyfrif cyfredol : £4221.86cr

Balans Cyfrif cadw: £2743.15

**Cyfarfod nesaf - nos Fawrth, 11 o Hydref am 7:30 y.h.**

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith

ccpistyll@btinternet.com 01286 650347